Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Chwefror 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Wynebu Heriau

Yn ôl arolwg diweddar gan yr ymgynghoriaeth adnoddau dynol DDI Europe, cafwyd bod 95% o reolwyr ym Mhrydain yn fodlon i bobl herio'u penderfyniadau, er mai 52% yn unig o reolwyr yn yr Almaen, a 29% o reolwyr yn Ffrainc oedd yn fodlon â hyn.

Ydych chi'n credu bod ymatebwyr Prydain i'r arolwg yn ateb yn gwbl onest? Sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â her i'ch penderfyniad ac, os ydych chi'n anfodlon â hyn, sut fyddwch chi'n sicrhau nad yw'r arfer yma'n tanseilio'ch awdurdod a'ch credadwyaeth?

Trefn Blaenoriaeth

Mae Richard Branson yn dadlau mai'r staff ddylai fod yn brif flaenoriaeth i unrhyw gwmni, gan y bydd staff â chymhelliant uchel yn sicrhau boddhad cwsmeriaid ac, yn y pen draw, bodlonrwydd cyfranddalwyr.

Ydych chi'n cytuno â'r drefn flaenoriaeth yma? A allai safbwynt o'r fath wrthdaro â'r athroniaeth mai'r 'cwsmer yw'r brenin'?

Gwybod a theimlo

Dywedodd yr awdur busnes Americanaidd Jim Rohn: "mae cyfathrebu effeithiol yn 20% yr hyn a wyddoch chi ac yn 80% eich teimladau chi am yr hyn y maen nhw'n ei wybod."

Pa mor hyderus ydych chi fod y ffordd y mae'ch busnes chi yn cyfathrebu yn rhoi ymdeimlad go iawn i bobl o'r hyn sydd ar gael gennych, yn hytrach na dim ond gwybodaeth ffeithiol o'ch cynnyrch neu'ch gwasanaeth?

Dylanwadu ar gyfle

Yn ôl rhifyn diweddar o'r Harvard Review, mae chwe ffactor allweddol, sy'n amrywio o ran eu pwysigrwydd ar wahanol adegau a than wahanol amgylchiadau, yn dylanwadu ar y cyfleoedd sydd ar gael i fusnesau. Sef – demograffeg, technoleg, confensiynau cymdeithasol, bwriadau'r llywodraeth, llafur a digwyddiadau byd-eang.

A fyddech chi'n gwybod pa rai o'r ffactorau yma sy'n dylanwadu fwyaf ar eich marchnadoedd ar hyn o bryd, neu a ydych chi'n hyderus eich bod chi'n cael y wybodaeth angenrheidiol am faterion i'ch galluogi chi i symud yn fuan a bachu cyfle sy'n codi?

Aros yn yr Unfan?

Gall trosiant staff fod yn fusnes drud. Mae'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad yn amcangyfrif bod costau recriwtio yn unig yn £4,625 y gweithiwr newydd, ar gyfartaledd. Yn ogystal â hyn, ceir anghyfleustra wrth i aelod o dîm ddiflannu, a'r gost o gadw cleientiaid a chwsmeriaid yn fodlon tra byddwch chi'n hyfforddi'r gweithiwr newydd.

Ydy hyn yn golygu, fodd bynnag, fod trosiant personél isel yn beth da o angenrheidrwydd? A yw'r rheiny sy'n aros efo chi am flynyddoedd yn cryfhau'r busnes ynteu a ydyn nhw'n llaesu dwylo yn eu parth cysur? Sut allwch chi wybod hyn, a beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech chi'n darganfod bod hyn yn wir?

Gwefannau Rheolaeth

Mae www.theworkingmanager.com yn adnodd gwych ar gyfer popeth sy'n ymwneud â rheolaeth ac yn drysorfa o wybodaeth ddefnyddiol. Gallwch astudio thema benodol yn drylwyr, dilyn llwybr personol, derbyn adborth ar eich gwybodaeth ac arnoch chi eich hunan, a hyd yn oed cadw cofnod cyflawni ar-lein. Mae'r deg awgrym gorau ar wahanol themâu yn arbennig o ddiddorol, ac mae rhestr eithaf cynhwysfawr o dermau rheolaeth ar gael hefyd. Mae'n bosibl y byddech hefyd yn hoffi darllen am y "top management thinkers," sy'n cynnig trosolwg o'r prif gwrwaid rheolaeth.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council